

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 16 Hydref 2018

Presennol: Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Dim

2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.

3. Cofnodion cyfarfod 18 Medi 2018

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Sharon Parry, eilio Cyng. Einir Thomas.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Cae Chwarae - Nodwyd bod Mr Medwyn Owen wedi gwneud ei arolygiad chwarterol, roedd yr offer mewn cyflwr da ar y cyfan ond bydd angen gwneud gwaith man ar y swings, y sleid, y llwybrau a'r fainc. Gofynnwyd i'r clercc gael golwg ar hyn.
2. Cynnal a Chadw Priffyrdd - roedd y clercc yn disgwyl ymateb gan CSYM.
3. Hysbysfwrdd - Roedd yr Uwch Swyddog Prisio o'r fan na fyddai unrhyw broblem wrth godi hysbysfyrddau ar dir CSYM ond mi fydd yn trafod hyn ymhellach gyda'r Adran Dai. Yn y cyfamser byddai'n anfon map o'r meysydd yr oedd yn yn eu hystyried yn fwyaf addas. Bydd angen caniatâd cynllunio hefyd.
4. Parcio Ffordd Minffordd - Nodwyd nad yw parcio ar y palmant yn anghyfreithlon y tu allan i Lundain, felly nid oedd gan CSYM bŵer i ddelio â'r troseddwr. Fodd bynnag, gallai modurwyr sy'n achosi rhwystr diangen i gerbydau a cherddwyr trwy barcio ar y palmant gael eu cosbi gan yr heddlu. Y cam gorau oedd i ac anfon tystiolaeth ffotograffig i Heddlu Gogledd Cymru.
5. Meysydd carafanau - nodwyd bod y meysydd bach newydd a sefydlwyd yn yr ardal yn ddiweddar yn Safleoedd Tystysgrifedig gyda'r Clwb Carafanau ac felly nid oedd angen caniatâd cynllunio arnynt. Roeddent yn gallu rhoi lle i hyd at 5 carafán neu 'Motor Home', a 10 pabell am gyfnod o 28 diwrnod yr un, unrhyw amser of flwyddyn.

Llofnod.....Cadeirydd.....

6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion

5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:

5.1 Penderfyniadau cynllunio - dim

5.2 Ceisiadau Cynllunio

32LPA1047/CC Tre Ifan, Caergeiliog.

Cais llawn ar gyfer codi 6 annedd ynghyd a creu mynedfa i gerbydau - angen sicrhau bod digon o le parcio ar gyfer y datblygiad gan fod trigolion yr eiddo cyfagos yn defnyddio'r safle parcio ar hyn o bryd.

32C123E/VAR – Bryn Ednyfed, Caergeiliog.

Cais o dan Adran 73 ar gyfer amrywio amod (01) o ganiatâd cynllunio 32C123D (Cais llawn ar gyfer y defnydd cyfreithlon o'r safle ar gyfer dim mwy na 20 o garafanau rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref, cynnydd mewn storio gaeaf ynghyd â chadw llwybr mynediad a gweithrediadau peirianeg) er mwyn caniatáu 24 llain galed ar gyfer carafanau, gweithrediadau peirianeg a hefyd i ddefnyddio'r safle drwy gydol y flwyddyn. – roedd pryderon y byddai pobl yn gallu byw yn rhain drwy gydol y flwyddyn.

32C211- Tir Ger 62 Dol Eithin, Caergeiliog.

Cais amlinellol ar gyfer codi dwy annedd fforddiadwy yn cynnwys manylion llawn am mynedfa, edrychiad ac graddfa ar dir ger 62 Dol Eithin – wedi ei dynnu'n ôl.

6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith
2. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned - cofnodion
3. Gorchymyn Caniatâd Datblygu'r Grid Cenedlaethol.

7. Materion Ariannol

Yn y banc 16.10. 2018 Cyfrif Cyfredol £10,901.14 Cyfrif Cadw £3,924.03

8. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Medi.)	£183.50	HMRC (TWE)	£45.90
GMS INV4272	£91.20	Archwiliad Cae Chwarae	£40.00

Llofnod.....Cadeirydd.....

Cytunwyd i dalu'r rhain.

9. Cyfrifon 18/19

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a chysoniad banc am y cyfnod hyd at 30.9. 2018.

Nodwyd fod Cyng. Dyfed Williams wedi arolygu'r cyfrifon a dywedodd bod angen

1. Cofnodi'r taliad o £234.00 a wnaed i G. L. Jones Playgrounds Ltd yn fis Mehefin am arolygu'r offer chwarae. Siec 101027 yn cyfeirio - byddai'r clerch yn gwneud nodyn ar y stub.
2. Cofnodi eglurhad o'r £100 a dderbynwyd fel ad-daliad o'r 'British Government Stocks'

10. Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Hyfforddiant Un Llais Cymru – Roedd y clerch wedi mynychu eu hyfforddiant ar ddefnyddio tg, gwefannau & chyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar
2. Wythnos Ymwybyddiaeth am Golli Babanod 2018
3. Bwletin Un Llais Cymru – newid pellach i Reolau Sefydlog Model Newydd 201
4. Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft PACGA (Chwefror 2019) – roeddd y clerch i ddsbarthu'r rhan perthnasol o hwn.

11. Unrhyw fater arall:

- 11.1 Dywedwyd fod angen rhoi gwybod i Bwrdd Gofalwyr y Towyn fod Cyng. William Victor Owen wedi ei benodi fel cynrhychiolydd y Cyngor Cymuned.

12. Cyfarfod Nesaf – 20 Tachwedd 2018

Llofnod.....Cadeirydd.....